Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Greenfield

**Heol Dyffryn**
**Pentrebach**
**Merthyr Tudful**
**CF48 4BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**H J Phillips**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Greenfield ar gyrion deheuol Merthyr Tudful a dyma'r unig ysgol arbennig yn yr awdurdod. Mae'n ysgol arbennig gydaddysgol i hyd at 147 o ddisgyblion rhwng 3 a 19 oed ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n darparu ar gyfer ystod eang o anghenion arbennig gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol, difrifol, a dwys a lluosog (ADC, ADD ac ADDLl yn y drefn honno), anawsterau dysgu penodol, anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASA), a disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (AEY). Mae rhai disgyblion hefyd yn cael anawsterau synhwyraidd ychwanegol gyda'u golwg a/neu glyw ac mae rhai'n cael anawsterau lleferydd a chyfathrebu. Daw bron yr holl ddisgyblion o gefndiroedd Saesneg eu hiaith ac mae ychydig dros hanner yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim. Daw dau o'r disgyblion o'r tu allan i'r sir ac mae saith yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (ALl).

Gwneir darpariaeth ar ddau safle cyfagos, y naill ar gyfer y disgyblion ar lefel gynradd a'r llall ar gyfer disgyblion oedran uwchradd. Mae'r disgyblion dros 16 oed (Ôl -16) yn cael eu cynnwys ar y safle uwchradd ond maent yn mynd i goleg lleol un diwrnod yr wythnos. Darperir i ffwrdd o'r safle ar gyfer lleiafrif bach iawn o ddisgyblion hŷn oherwydd rhaglen arbennig amgen o addysg a hyfforddiant sydd orau i fodloni eu hanghenion hwy. Gwnaethpwyd darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag ASA yn yr ysgol.

Cyllideb ysgol unigol 2010-2011 y pen i ddisgyblion Ysgol Arbennig Greenfield yw £11,728 sy'n cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o £16,993 i'r holl ysgolion arbennig yng Nghymru.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2004.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae Greenfield yn ysgol dda oherwydd:

- mae cyflawniad y disgyblion yn gyson dda, heb ystyried eu rhyw, eu cefndir cymdeithasol, eu hethnigrwydd neu natur eu hanghenion addysgol arbennig.
- wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn arddangos annibyniaeth gynyddol ac yn hyderus yn cael at y gymuned leol a lleoliadau profiad gwaith, gan drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg bellach neu leoliadau gwaith pan fyddant yn gadael yr ysgol.
- mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ym mhob cyfnod allweddol sy'n briodol i anghenion y disgyblion.
- un o gryfderau arbennig yr ysgol yw ei systemau cadarn ac effeithiol iawn i asesu, arfarnu, ac olrhain cynnydd y disgyblion ar draws pynciau, sgiliau a grwpiau o ddysgwyr.
- mae darpariaeth ragorol ar gyfer iechyd a lles y disgyblion.
- mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu hapus, diogel a gofalgar iawn i'w dysgwyr i gyd.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella rhagorol gan fod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol yn gryf iawn, gydag ymrwymiad eithriadol i amrywiaeth o fentrau meddylgar i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth i fodloni anghenion y disgyblion wrth iddynt newid. Mae'r rhain yn cynnwys:

Datblygu cwricwlwm seiliedig ar sgiliau â themâu cyffredin i ddarparu 'dysgu cysylltiedig' i'r disgyblion;

- Datblygu ymhellach y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm;
- Arweinyddiaeth wasgaredig sy'n cynnwys staff ac sy'n eu cymell i gydweithio mewn grwpiau adrannol megis cymunedau dysgu proffesiynol;
- Y partneriaethau cryfion ag ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig sy'n hyrwyddo cydweithio er budd pawb;
- Hyrwyddo lles y disgyblion gan gynnwys datblygu rhaglen chwaraeon yr ysgol;
- Defnyddio data perfformiad effeithiol i adnabod anghenion a hyrwyddo strategaethau i godi safonau ar draws ystod amrywiol o anghenion disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Greenfield:

A1 datblygu sgiliau rhifedd y disgyblion yn gryfach;*

A2 datblygu Cymraeg y disgyblion yn well;*

A3 sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n fwy cyson o ran ystyried amrywiaeth anghenion a galluoedd y disgyblion yn llawn;

A4 sicrhau bod anghenion lleferydd ac iaith y disgyblion yn cael eu bodloni'n llawnach; ac

A5 ymgynghori'n ehangach â phartneriaid mewn darpariaeth yn rhan o broses hunanarfarnu'r ysgol.

Mae'r argymhellion a nodwyd â '*' wedi'u hadnabod eisoes yng nghynllun datblygu'r ysgol yn rhai y mae angen eu gwella.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.
Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r disgyblion yn cyflawni eu targedau dysgu mewn gwersi yn gyson dda ac weithiau'n rhagorol.

Barnwyd bod safonau cyflawniad yng ngwaith y disgyblion ym mhob cyfnod allweddol yn dda. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyflawni cymwysterau sy'n cael eu hachredu'n allanol erbyn iddynt adael yr ysgol.

Dengys data asesu'n glir fod cyflawniad y disgyblion yn gyson dda heb ystyried eu rhyw, eu cefndir cymdeithasol, eu hethnigrwydd neu natur eu hanghenion addysgol arbennig. Mae'r disgyblion yn datblygu sgiliau da o ran gwrando, cyfathrebu, meddwl, arfarnu eu perfformiad eu hunain, defnyddio TGCh, cydweithio, datrys problemau ac annibyniaeth.

Mae cynnydd y disgyblion yn llai amlwg o ran datblygu eu sgiliau mewn rhifedd a Chymraeg. Dengys data asesu'r ysgol fod y disgyblion yn gwneud cynnydd bach yn eu sgiliau rhifedd. Mae ansawdd y Gymraeg achlysurol a siaredir gan y dysgwyr yn ddigon da ac yn gwella. Dangosant ddealltwriaeth dda o agweddau ar hanes a daearyddiaeth Cymru.

Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) hefyd yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu, yn addysgol ac yn bersonol.

**Lles: Rhagorol**

Mae'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn helaeth mewn datblygu bwyta'n iach yn yr ysgol drwy un o fentrau'r Cynulliad, Blas am Oes. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y ffaith y buont yn gallu dylanwadu prydau ysgol er budd pawb yn yr ysgol ac maent yn dra ymwybodol o'r hyn sy'n gwneud ffordd iachus o fyw.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni safonau ymddygiad da iawn, gyda'u hunanhyder a'u hunan-barch yn cynyddu wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae cyngor yr ysgol wedi'i hen sefydlu ac mae'n effeithiol iawn yn gwella bywyd yr ysgol. Mae aelodau o gyngor yr ysgol yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol a bywyd yn sylweddol drwy gyfranogi mewn penderfyniadau am fywyd yr ysgol ac maent yn cynrychioli barn eu cyfoedion yn dda.

Adlewyrchir presenoldeb da'r disgyblion a'r safonau ymddygiad uchel a gyflawnir ganddynt yn eu cyfranogiad llawn mewn gwersi ac yng ngweithgareddau'r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ym mhob cyfnod allweddol, sy'n briodol i anghenion y disgyblion. Mae parhad a dilyniant yn cael eu hyrwyddo drwy gynlluniau tymor byr a chanol tymor a thrwy weithredu'r fframwaith sgiliau allweddol yn berthnasol. Mae'r ysgol wedi gweithio ochr yn ochr â thîm cynghori'r Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion i ddatblygu gweithgareddau ar gyfer sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu sy'n cael eu cyflenwi'n gyson ar draws pob cyfnod. Defnyddir y ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn effeithiol i gynorthwyo addysgu ac i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn datblygu ar draws yr ysgol ac yn ystyried galluoedd dysgwyr yn dda. Er bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi gan amrywiaeth o arddangosiadau, ni ddefnyddir yr iaith yn ddigonol i hyrwyddo a datblygu sgiliau llafar yn gynyddol. Mae cynnwys y Cwricwlwm Cymreig yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y dysgwyr o dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag anghenion unigol yr holl ddysgwyr, gan ddarparu iddynt brofiadau a rhaglenni astudio effeithiol ac addas wrth iddynt agosáu at oedran gadael ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 (CA4) a myfyrwyr Ol-16 yn cael at gyrsiau achrededig. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu cyfleoedd am brofiadau cysylltiedig â gwaith a phontio i addysg bellach. Dyma un o gryfderau'r ysgol.

Mae darpariaeth dda i alluogi pob dysgwr i ddatblygu ei ddealltwriaeth am fyw'n iachus, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn ogystal ag amrywiaeth o therapïau ac ymweliadau addysgol sy'n cyfoethogi cyfleoedd ar draws cyfnodau allweddol. Mae gweithgareddau allgyrsiol fel garddio, chwaraeon a cherddoriaeth a ddarperir yn ystod amser cinio yn llwyddo i ymestyn dysgu'r disgyblion.

**Addysgu: Da**

Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau a strategaethau'n rhagorol i sicrhau bod holl anghenion unigol y dysgwyr yn cael eu bodloni.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio sgiliau meddwl a TGCh yn effeithiol ar draws meysydd pwnc, ac yn dangos gwybodaeth dda am anghenion y dysgwyr. Ynghyd â chynorthwywyr cymorth dysgu, mae'r athrawon yn llwyddo i sefydlu amgylchedd cefnogol iawn sy'n meithrin dysgu ac sy'n sicrhau bod y dysgwyr yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt mewn perthynas â'u targedau. Maent yn llwyddo i gynnwys y dysgwyr mewn arfarnu eu dysgu eu hunain a gosod eu targedau. Mae gwaith a gweithgareddau'n cael eu gwirio'n rheolaidd ac mae'r dysgwyr yn cael cyngor defnyddiol am sut i wella eu gwaith.

Mae bron yr holl athrawon y defnyddio amrywiaeth o strategaethau cyfathrebu’n effeithiol i ennyn a chynnal diddordeb y dysgwyr ac i sicrhau eu bod yn canolbwyntio. Fodd bynnag, mewn ambell wers, mae’r cyflwyniadau’n rhy hir ac nid yw’r tasgau bob amser yn cyd-fynd â lefelau gallu’r dysgwyr.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ac effeithiol iawn i asesu, arfarnu, ac olrhain cynnydd y disgyblion ar draws pynciau. Un o’r cryfderau arbennig yn y broses hon yw’r dull o nodi a mynd i’r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rheini â phroblemau ymddygiadol, ac addasu’r ffordd yr eir i’r afael â’u hanghenion fel sy’n briodol.

Mae’r adroddiadau i rieni’n glir ac maent yn rhoi gwybod yn ddefnyddiol pa mor dda mae eu plant yn gwneud cynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer lles ac iechyd y disgyblion. Mae’r ysgol yn hyrwyddo manteision byw’n iachus yn effeithiol. Mae ymddygiad a lles y disgyblion yn cael eu nodi a’u holrhain drwy fonitro tra effeithiol yn yr ysgol. O ganlyniad, mae’r staff yn cyfrannu’n llwyddiannus at ddatblygiad y disgyblion ac yn cefnogi anghenion dysgu unigol. Mae’r fenter hon yn arfer blaenllaw yn y sector.

Mae’r plant yn arddangos datblygiad moesol a chymdeithasol da iawn, gan gysylltu’n dda â’i gilydd.

Mae’r holl athrawon yn rhoi cyngor ac arweiniad da iawn i’r dysgwyr. Drwy ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau cefnogol ac arbenigol yn effeithiol, sicrheir cymorth ac arweiniad arbennig o dda; mae hyn yn cynnwys cael at gymorth hyfforddwr dysgu.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu ac mae’n sicrhau hefyd fod yr holl staff wedi cael gwiriadau’r CRB.

Mae’r ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY yn dda. Mae’r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion ag ADY yn cael at holl feysydd y cwricwlwm. Defnyddir amrywiaeth o systemau cefnogi effeithiol yn dda i’w galluogi i gyflawni safonau da. Fodd bynnag, er gwaethaf arferion da ac effeithiol yr ysgol i alluogi pob disgybl i gyfathrebu’n effeithiol, nid oes therapi lleferydd ac iaith arbenigol ar gael ar hyn o bryd i fodloni anghenion y disgyblion hynny y nodwyd yn eu datganiadau o anghenion addysgol arbennig fod angen y cymorth mwyaf arnynt.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu hapus, diogel a gofalgar iawn i’w holl ddysgwyr. Mae perthynas dda iawn rhwng y staff a’r disgyblion, yn seiliedig ar barchu ei gilydd. Mae’r staff yn cynnal ymagwedd gadarnhaol iawn, gyda phwyslais ar gydnabod a dathlu cyflawniadau dysgwyr unigol a hyrwyddo ymwybyddiaeth y dysgwyr am gyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth.

Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddeniadol ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda. Mae darpariaeth ddigonol o doiledau a chyfleusterau newid i fodloni anghenion personol y disgyblion. Mae’r ystafelloedd dosbarth a’r ystafelloedd addysgu

arbenigol yn llawn adnoddau, ac maent yn darparu amgylchedd dysgu symbylol, sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion dysgu'r disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae nodau, amcanion, cynlluniau a pholisïau strategol yr ysgol yn glir, gan gyfateb yn dda iawn i anghenion y disgyblion ac i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer datblygiad. Mae gwelliannau a gynllunnir yn cael eu gweithredu'n effeithiol drwy'r arweinyddiaeth wasgaredig feddylgar iawn drwy'r ysgol gyfan.

Mae rolau a chyfrifoldebau'n glir ac mae cymunedau dysgu proffesiynol effeithiol wedi'u sefydlu ar draws pob adran, gan hyrwyddo monitro, arfarnu a mentrau priodol da iawn i wella'r ddarpariaeth. Mae gwaith tîm rhagorol mewn adrannau a rhwng adrannau yn sicrhau bod prosiectau gwella ysgol yn cael eu rheoli a'u cyflawni'n effeithiol.

Mae'r uwch reolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae hyn, ynghyd â chyfarfodydd adrannol, yn galluogi cyfathrebu da ac ethos cadarnhaol iawn tuag at wella'r ysgol. Mae'r holl staff yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi ac mae'r disgyblion yn falch o'u cyfraniadau at wella'r ysgol.

Mae systemau da iawn yr ysgol ar gyfer cofnodi a chasglu data am gyflawniad y disgyblion yn cael eu defnyddio'n effeithiol i benderfynu a monitro canlyniadau prosiectau ar gyfer gwelliant, gan ystyried amrywiaeth anghenion y disgyblion yn llawn.

Sefydlir gweithdrefnau da iawn ar gyfer rheoli perfformiad staff gan arwain at ddatblygu arbenigedd staff yn dda iawn, gan fodloni ystod amrywiol anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae nifer o aelodau o staff yn cynnal hyfforddiant mewnol i gydweithwyr ac yn darparu hyfforddiant allgymorth a chymorth i ysgolion prif ffrwd.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Sefydlwyd diwylliant cryf iawn o hunanarfarnu gyda chylch trefnus o weithgareddau a thasgau. Drwy ddefnyddio data asesu yn systematig ac yn dra effeithiol, mae cryfderau a blaenoriaethau pellach ar gyfer datblygu'n cael eu nodi'n glir. Mae'r broses hon hefyd yn sicrhau bod effaith mentrau amrywiol a gynlluniwyd i wella'r ysgol yn cael ei harfarnu'n llawn.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn ystyried barn yr holl staff, dysgwyr a rhieni'n dda iawn. Mae'r dystiolaeth a gesglir gan arweinwyr pwnc a thrwy reoli perfformiad yn cael ei defnyddio'n effeithiol i nodi meysydd ar gyfer datblygu a dathlu. Fodd bynnag, collir rhai cyfleoedd i gasglu barn sefydliadau cymunedol a chefnogol sy'n ymwneud â'r ysgol, fel cyflogwyr.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o fentrau'n effeithiol iawn i arfarnu effeithiolrwydd addysgu a dysgu. Mae hyn wedi arwain at ymagwedd gyfunol a

chydweithredol at arfarnu a chynllunio ac mae'n cyfrannu'n sylweddol tuag at fodloni blaenoriaethau ysgol, lleol a chenedlaethol.

Mae'r staff uwch a'r corff llywodraethu'n monitro ansawdd y rheoli a'r addysgu ar bob lefel, ac mae pawb yn elwa ar amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi i wella eu sgiliau arwain.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â bron yr holl faterion allweddol o'r arolygiad diwethaf; mae mewn sefyllfa dda iawn i barhau i wella'r ddarpariaeth wrth i'r mentrau cyfredol meddylgar gael eu hymgorffori yn arfer yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Rhagorol**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau sydd wedi'u hen sefydlu yn y gymuned a'r awdurdod lleol, gydag ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig eraill yn y rhanbarth.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o sefydliadau allanol i sicrhau bod y dysgwyr yn elwa ar ystod estynedig o brofiadau ac adnoddau dysgu gwerthfawr. Mae cydweithio da iawn wedi arwain at welliant parhaus wrth ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion; mae wedi arwain hefyd at baratoi'r myfyrwyr ar gyfer gadael yr ysgol a symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 'Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig' i arwain menter werthfawr sy'n cefnogi ysgolion lleol mewn rheoli ymddygiad cadarnhaol.  Mae canlyniadau'r prosiect hwn yn cyfrannu'n sylweddol at y strategaethau sy'n cael eu defnyddio i reoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol, mewn ysgolion prif ffrwd ac yn ysgol Greenfield.

Mae partneriaethau proffesiynol ag ysgolion arbennig eraill yn arbennig o gynhyrchiol ar gyfer datblygu staff drwy rannu arfer da, a thrwy ymchwilio i agweddau pwysig ar ddarpariaeth fel 'lles', y 'Cyfnod Sylfaen' ac 'asesu ar gyfer dysgu', a'u datblygu.

Mae 'cymunedau dysgu proffesiynol' effeithiol wedi'u sefydlu ag ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a'r tîm cynghori.  Mae canlyniadau'r partneriaethau hyn sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth ddatblygu ar gyfer rheoli ymddygiad a lles y disgyblion yn enghreifftiau o arfer blaenllaw yn y sector.

Mae rhieni'n gweithio'n dda gyda'r ysgol a darparwyd llawer o adnoddau arbenigol yr ysgol drwy fentrau codi arian a rhoddion elusennol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda.  Mae'r adeiladau a'r adnoddau'n dda, a nifer sylweddol o'r rhain wedi'u darparu gan sefydliadau elusennol.  Mae cyfyngiadau diweddar ar y gyllideb wedi golygu bod nifer o staff profiadol wedi'u colli, ond mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol drwy ad-drefnu lleoliad y staff er mwyn bodloni anghenion dysgu'r disgyblion yn y modd gorau.  Mae blaenoriaethau gwario'n cysylltu â chynllun gwella'r ysgol ac fe'u hadolygir yn rheolaidd gan y corff llywodraethu, sy'n gweithio'n agos wedyn gyda'r pennaeth a'r ALl i sicrhau gwerth gorau.

Mae’r staff yn dra chymwysedig, ac mae nifer yn darparu hyfforddiant allgymorth i sefydliadau eraill.  Mae systemau da ar waith i reoli amser cynllunio, paratoi ac asesu’r athrawon, a rheoli perfformiad.

Mae safonau’r addysgu a’r cymorth yn gyson dda, ac mae’r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu cyrhaeddiad a’u datblygiad cymdeithasol; o ganlyniad, mae’n darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Roedd y deg rhiant a ymatebodd i’r holiadur cyn yr arolygiad yn cytuno i raddau helaeth iawn, a’r rhan fwyaf yn cytuno’n gryf, bod yr ysgol yn helpu eu plant i ymgartrefu’n gyflym yn yr ysgol, bod eu plant yn mwynhau mynd i’r ysgol, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu trin yn deg ac yn barchus. Roeddent i gyd yn credu bod ansawdd yr addysgu’n dda, bod disgwyl i’r plant wneud eu gorau a’u bod yn gwneud cynnydd da, bod gwaith cartref yn adeiladu’n dda ar waith ysgol a bod cymorth ychwanegol priodol yn cael ei ddarparu’n unol ag angen unigol.

Roedd lleiafrif bach iawn yn teimlo’n anghyffyrddus am fynd at yr ysgol ag awgrymiadau neu gwynion neu’n teimlo nad oedd eu plant wedi’u paratoi’n ddigon da ar gyfer gadael yr ysgol. Fodd bynnag, canfu’r arolygwyr fod gan yr ysgol weithdrefnau da ar gyfer cwyno a bod paratoi’r disgyblion at adael yr ysgol yn nodwedd arbennig o gryf ar ddarpariaeth yr ysgol.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu parchu, ac yn meddwl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os byddant yn pryderu. Mae’r rhan fwyaf yn credu bod yr ysgol yn ymdrin yn dda â bwlio. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn CA2 a rhai merched yn CA4 yn anghytuno. Ni chanfu’r arolygwyr dystiolaeth o fwlio o gwbl a barnwyd bod gan yr ysgol ffyrdd effeithiol o gefnogi disgyblion sy’n teimlo’n agored i niwed.

Mae bron yr holl ddisgyblion a’r myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, bod eu barn yn cael ei chlywed a bod yr ysgol yn dysgu iddynt sut i gadw’n iach. Maent i gyd yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith ac mae’r rhan fwyaf yn teimlo bod gwaith cartref yn eu helpu i wella eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn CA4 a’r myfyrwyr dros 16 yn meddwl eu bod wedi cael cyngor da i ddewis cyrsiau addas.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jim Phillips | Arolygydd Cofnodol |
| Catherine Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Susan Painter | Arolygydd Tîm |
| Gillian Unwin | Arolygydd Tîm |
| Lesley Bush | Arolygydd Cymheiriaid |
| Wayne Murphy | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:**

Baker-Phillips Educational Communications Ltd., Oaks Lea, Higher Knolton, Overton, Wrecsam, LL13 0LF

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |
| Ôl -16 | Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 |